# Cronfa Cymru Actif – alla i wneud cais?

#CymruActif #BeActiveWales

Ydy COVID-19 wedi eich atal rhag cyflawni eich gweithgarwch corfforol neu chwaraeon cymunedol?

Ydych chi'n gorfod addasu eich gweithgarwch corfforol oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru?

Ydy eich chwaraeon/gweithgaredd yn gofyn i chi brynu rhywbeth er mwyn glynu wrth y canllawiau hynny?

Oes angen cymorth ariannol arnoch o'r tu allan i'ch clwb neu sefydliad i brynu'r cynnyrch priodol?

Ydych chi'n glwb pêl-droed?

Mae Undeb Rygbi Cymru yn cynnig cymorth ariannol i glybiau rygbi yng Nghymru i'w helpu i ddychwelyd yn ddiogel i chwaraeon. Cysylltwch â Thîm Datblygu Clwb Undeb Rygbi Cymru.

Cyn i chi ystyried gwneud cais am gymorth ariannol gan Chwaraeon Cymru – mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn gofyn i chi lenwi ei Harolwg Effaith Covid-19.

Ydych chi wedi gorfod rhoi'r gorau i'ch gweithgaredd yn llwyr?

Ydy hyn wedi cael effaith ariannol ar eich gweithgaredd/clwb/sefydliad?

Oes angen cymorth ariannol arnoch i sicrhau y gall eich gweithgaredd ailddechrau pan fydd yn ddiogel gwneud hynny?

Ydych chi'n glwb rygbi?

## *Allwn ni helpu!*

Gall cyllid helpu eich gweithgaredd i oroesi'r pandemig a/neu eich cael yn ôl ar eich traed, er mwyn i chi a'ch cymuned leol fwynhau bod yn actif unwaith eto. Mae'n bwysig ystyried beth yn union yw'r canllawiau ar gyfer eich chwaraeon neu weithgaredd. Gellir dod o hyd i'r cyfan y mae angen i chi ei wybod am Gronfa Cymru Actif yn www.chwaraeon.cymru/cronfacymruactif

## *Efallai eich bod chi'n iawn!*

Mae'n swnio fel nad yw'r pandemig wedi effeithio ar eich gweithgaredd sy'n golygu y gallwch barhau â'ch gweithgarwch wrth ddilyn canllawiau'r Llywodraeth, neu fod gennych drefniadau ariannol da lle nad oes angen cymorth arnoch o rywle arall. Os nad ydych chi'n siŵr, ewch i'n Canolfan Gymorth. Neu edrychwch ar y cymorth ariannol arall sydd ar gael i glybiau a sefydliadau.